BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

15 Gorffennaf 2019

Annwyl Aelod Cynulliad

Cyfarfu'r Bwrdd Taliadau ar 4 Gorffennaf 2019. Rhoddir crynodeb isod o'r trafodaethau a gafwyd a'r penderfyniadau a wnaed.

***Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad***

Mae'r Bwrdd wrthi'n cynnal adolygiad o'r Penderfyniad cyn y Cynulliad nesaf ac fe dreuliwyd y rhan fwyaf o gyfarfod mis Gorffennaf yn trafod y gwahanol faterion sy'n codi o'r adolygiad fel yr amlinellir isod:

*Rhan Un*

Trafododd y Bwrdd yr ymatebion i'r **ymgynghoriad cyntaf** yn sgil yr adolygiad, a oedd yn canolbwyntio ar ddarpariaethau Teithio, Costau Swyddfa a Gwariant Llety Preswyl yr Aelodau. Mae crynodeb o drafodaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd yn dilyn yr ymgynghoriad hwn i'w gweld yn ei **lythyr ynghylch y penderfyniad**.

*Rhan Dau*

Trafododd y Bwrdd hefyd y darpariaethau o dan ran dau o'i adolygiad sy'n canolbwyntio ar y lwfansau cymorth staffio a geir yn y Penderfyniad. Cytunodd y Bwrdd i gyhoeddi ymgynghoriad ar ei gynigion yn deillio o'r rhan hon o'r adolygiad yn fuan cyn toriad yr hafMae’r **ymgynghoriad** hwn wedi’i gyhoeddi ac rydym yn edrych ymlaen at glywed eich barn.

Yn ogystal â'r materion sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad, trafododd y Bwrdd hefyd y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol ac a oedd angen ei newid o gwbl. Cytunodd y Bwrdd i drafod y mater mewn cyfarfod yn y dyfodol.

*Rhan Tri*

Aeth y Bwrdd ati hefyd i ystyried ymhellach y materion sy'n rhan o drydedd ran yr adolygiad ar y penodau yn y Penderfyniad sy’n trafod *taliadau Aelodau* a *chefnogaeth i Aelodau sy’n gadael eu swyddi*. Bydd y Bwrdd yn edrych ar y materion hyn eto yn ei gyfarfod nesaf ym mis Medi. Fel y nodwyd ar **wefan y Bwrdd**, mae'r Bwrdd yn disgwyl cyhoeddi ymgynghoriad ar y materion a godir yn y rhan hon o'r adolygiad yn nhymor yr hydref.

***Adolygiad o Reolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau***

Mae'r Bwrdd wedi trafod yn y gorffennol a oedd angen adolygu Rheolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion o ran gwahaniaethu ar sail oedran ar gyfer y rheini sy'n 75 oed a hŷn. Yn dilyn trafodaeth bellach, mae'r Bwrdd wedi cytuno i gynnig rhai newidiadau i Reolau'r Cynllun. Bydd y newidiadau hyn yn sicrhau bod y Cynllun yn cydymffurfio â gofynion gwahaniaethu ar sail oedran yn ogystal â darparu mwy o hyblygrwydd i Aelodau sy'n dioddef o salwch difrifol. Mae'r cynigion eisoes wedi'u cyhoeddi a gellir dod o hyd iddynt **yma**.

***Yr Adroddiad blynyddol***

Trafododd y Bwrdd ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2018-19 a chytunodd y dylid ei osod gerbron y Cynulliad cyn toriad yr haf.

***Materion eraill***

Rhoddwyd diweddariad i'r Bwrdd ar newid cyfansoddiadol yn y Cynulliad. Trafododd y Bwrdd y gweithgaredd diweddaraf o ran y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) a bydd yn parhau i fonitro datblygiadau ar hynt y Bil a ph'un a oes unrhyw effaith ar y meysydd o fewn ei gylch gwaith. Nododd y Bwrdd hefyd benderfyniad Comisiwn y Cynulliad i beidio â deddfu ar gyfer sefydliad mwy o faint mewn pryd ar gyfer y Chweched Cynulliad.

Hoffai’r Bwrdd hefyd gofnodi ei ddiolch i Rebecca Hardwicke am ei holl waith wrth gefnogi'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn ddiolchgar iawn i Rebecca am ei chefnogaeth i'r Bwrdd, yr Aelodau a'u staff, ac mae'n dymuno'n dda iddi yn ei gyrfa newydd.

Caiff y llythyr hwn ei gyhoeddi ar ein gwefan hefyd yn ôl ein harfer.

Os hoffech drafod unrhyw fater â mi neu ag un o'm cyd-aelodau o'r Bwrdd, mae croeso ichi gysylltu â mi drwy’r **ysgrifenyddiaeth**.

Cofion gorau,

**Y Fonesig Dawn Primarolo**

**Cadeirydd y Bwrdd Taliadau**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English